



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Trechu Tlodi Tanwydd 2020-2035

Cynllun i gynorthwyo pobl sy'n cael trafferth i dalu eu costau ynni
domestig

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 31 Rhagfyr 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ynglŷn â chynllun arfaethedig y Llywodraeth i drechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru rhwng 2020 a 2035.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Gallwch ymateb ar-lein, trwy e-bost neu trwy'r post.

Ar-lein – Llenwch y ffurflen ar-lein ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru

E-bost – Anfonwch e-bost yn nodi eich sylwadau ynglŷn â'r cynllun drafft at FuelPovertyandEnergyEfficiency@gov.wales

Post – Anfonwch eich sylwadau ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd
Llawr Tri, Adain y Gogledd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Y Tîm Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ
e-bost: FuelPovertyandEnergyEfficiency@gov.wales

03000 251497

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â nhw neu'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond dan gcontract y bydd gwaith o'r fath yn cael ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion llym o safbwynt prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai hefyd y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. **Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Yna, byddwn yn eu golygu cyn cyhoeddi.**

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am hyd at dair blynedd.

Eich hawliau

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- cael eich hysbysu ynghylch y data personol a gedwir amdanoch a chael mynediad ato
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro pethau sy'n anghywir yn y data
- (mewn rhai amgylchiadau) gwrthwynebu prosesu'r data, neu gyfyngu ar y prosesu
- (mewn rhai amgylchiadau) gofyn i'ch data gael ei 'ddileu'
- (mewn rhai amgylchiadau) cludadwyedd data
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol o safbwynt diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawl dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

CYNNWYS

RHAGAIR Y GWEINIDOG.....	5
CRYNODEB	7
DIBEN Y DDOGFEN HON	8
CYD-DESTUN A CHEFNDIR	9
CAMAU RYDYM WEDI'U CYMRYD I DRECHU TLODI TANWYDD.....	10
YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI A BLE'R YDYM ARNI YN AWR.....	13
GWRANDO AR DDADANSODDI A THYSTIOLAETH.....	19
ADOLYGIADAU ANNIBYNNOL	19
EIN DULL ARFAETHEDIG AR GYFER 2020-2035.....	21
ATODIAD A – ARGYMHELLION SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.....	27
ATODIAD B – ARGYMHELLION PWYLLGOR NEWID HINSAWDD, AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG Y SENEDD YN DILYN EI HYMCHWILIAD I DLODI TANWYDD.....	29
ATODIAD C – CRYNODEB O'R CWESTIYNAU.....	36
ATODIAD D – CYNLLUN	1
DRAFFT I FYND I'R AFAEL Â THLODI TANWYDD – CAMAU GWEITHREDU BLAENORIAETH AR GYFER 2021/2023.....	1
RHESTR TERMAU	4

RHAGAIR Y GWEINIDOG

Ym mis Chwefror y llynedd, cyhoeddais fy mwriad i ymgynghori ynghylch cynllun newydd i drechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru. Roedd amcangyfrifon a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019 yn awgrymu bod lefel tlodi tanwydd yng Nghymru wedi haneru ers 2008. Er ein bod yn croesawu'r amcangyfrifon hyn, amcangyfrifir bod 155,000 o gartrefi yng Nghymru yn dal i ymlafnio i fforddio cartref diogel a chyfforddus.



Ers i'r amcangyfrifon gael eu paratoi a'u cyhoeddi, mae dyfodiad pandemig COVID 19 ym mis Mawrth wedi cael effaith sylweddol ar aelwydydd yng Nghymru. Er gwaethaf y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i amddiffyn pobl rhag y feirws, mae gormod o bobl wedi dioddef yn sgil ei effeithiau. Er ei bod yn rhy gynnar inni ddeall yn llawn yr effaith lawn ar aelwydydd Cymru, mae'n amlwg bod ein cartrefi wedi cymryd rhan amlycach yn ein bywydau bob dydd, gan gynyddu'r ynni a ddefnyddiwn. Bydd biliau tanwydd uwch llawer o aelwydydd yn ystod yr hydref a'r gaeaf yn golygu bod talu cost ynni yn anos, yn enwedig i aelwydydd incwm is. O ystyried hyn ynghyd â'r gostyngiad mewn incwm y bydd llawer o bobl yn ei brofi ar aelwydydd o ganlyniad i ffyrlo a'r effeithiau economaidd ehangach eleni, rwy'n disgwyl y bydd llawer mwy o aelwydydd yn ei chael yn anodd cynnal cartref cynnes yn ystod misoedd y gaeaf.

Ni all Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r her hon ar ei phen ei hun. Mae angen gweithredu pellach gan y Llywodraeth, trwy weithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach a chwmnïau ynni, er mwyn cynorthwyo ein partneriaid yn y Trydydd Sector i leihau mwy fyth ar dlodi tanwydd. Llywodraeth y DU sy'n meddu ar lawer o'r pwerau allweddol i gyflawni newid, a byddwn yn parhau i ddefnyddio ein dylanwad i siapio camau a pholisïau'r llywodraeth honno.

Wrth lunio'r cynllun drafft hwn gyda rhanddeiliaid allweddol, rydw i wedi ceisio cael cydbwysedd rhwng targedau heriol ac ystyrlon, ond cyraeddadwy, er mwyn gostwng yn sylweddol lefelau tlodi tanwydd mewn hinsawdd economaidd anodd. Rwy'n croesawu'r cyfraniad a wnaed gan randdeiliaid allweddol yn ystod y drafodaeth bord gron a gynhaliwyd gennyf ar 5 Mehefin 2019 er mwyn llywio'r cynllun hwn. Croesawaf hefyd y 21 o argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill yn dilyn eu hymchwiliad i dlodi tanwydd. Ar ran Llywodraeth Cymru, derbyniais yr holl argymhellion, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor.

Mae'n amlwg i mi fod angen cymryd camau pellach er mwyn codi pobl sy'n byw ar incwm isel allan o dlodi ym mhob un o'i ffurfiau, ac er mwyn diogelu rhag tlodi yn y dyfodol. Mae'r cynllun drafft hwn yn nodi'n glir yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni a sut yr ydym yn bwriadu cynorthwyo pobl yn rhagweithiol i gael bargaen well gan y farchnad ynni, rhoi cymorth iddynt i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, ategu'r agenda datgarboneiddio, a gwneud y defnydd gorau o dechnolegau newydd er mwyn ceisio cynnal cartrefi diogel.

Bydd y camau a nodir yn y cynllun hwn yn gyfraniad allweddol at ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ym mhob un o'i ffurfiau, yn enwedig ar gyfer plant, pobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl. Bydd parhau i fuddsoddi yn y cymorth a roddwn i bobl sy'n byw ar incwm isel, er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, yn helpu gyda'n hymdrechion i ddatgarboneiddio tai Cymru fel rhan o'n hymdrechion i ymateb i'r heriau sy'n codi o Newid yn yr Hinsawdd.

Ar sail hyn, rwy'n awyddus i glywed eich barn ynglŷn â'r cynllun drafft hwn, y targedau arfaethedig a'r camau yr wyf yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r ymrwymadau hyn.

A handwritten signature in cursive script, reading 'Lesley Griffiths', enclosed within a thin rectangular border.

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

CRYNODEB

Rydym yn dweud fod rhywun mewn tlodi tanwydd os oes rhaid iddo wario mwy na 10% o'i incwm ar drefn wresogi foddhaol. Mae cefnogi pobl allan o dlodi tanwydd yn eu helpu i fyw bywydau gwyrddach, iachach a mwy llewyrchus.

Er nad ydym yn rheoli'r holl ffactorau dan sylw, ers 2003 rydym wedi bod yn gweithio i leihau tlodi tanwydd. Mae ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ac yn fwy diweddar, ein Rhaglen Cartrefi Clyd, wedi darparu cyngor am ddim a gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i filoedd o gartrefi ledled Cymru.

Er 2008, amcangyfrifir ein bod wedi mwy na haneru nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae tua 155,000 o aelwydydd yn dal i fod mewn tlodi tanwydd.

Rydym yn ymgynghori ar gynllun newydd ar gyfer lleihau tlodi tanwydd ymhellach erbyn 2035. Fel cam cyntaf, mae'r cynllun hwn yn cynnwys y camau gweithredu a fydd, yn ein barn ni, yn cael yr effaith fwyaf rhwng nawr a 2023.

Mae'r gweithgaredd a'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar y pedwar peth y gallwn eu gwneud fel Llywodraeth Cymru:

Nodi pobl sydd angen help	Blaenoriaethu a diogelu'r rhai sydd â'r angen mwyaf	Gwneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni	Dylanwadu ar y bobl sy'n rheoli'r farchnad ynni
---------------------------	---	---	---

Rydym am gael eich barn ar ein nodau, ein dull gweithredu a sut y gallwn gyrraedd y nod gyda'n gilydd.

DIBEN Y DDOGFEN HON

1. Rydym yn ceisio barn a sylwadau rhanddeiliaid ynglŷn â'n cynllun tloidi tanwydd arfaethedig, er mwyn i Lywodraeth Cymru allu llunio ymateb cryfach, mwy deallus a chwbl briodol ar gyfer ymdrin â thloidi tanwydd yng Nghymru.
2. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi:
 - Sut yr ydym yn diffinio ac yn mesur tloidi tanwydd, ein cyfrifoldebau cyfreithiol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar lefelau tloidi tanwydd;
 - Y camau rydym wedi'u cymryd ers 2003 i leihau tloidi tanwydd a helpu pobl sy'n byw ar incwm isel i gael gafael ar y cyngor, y cymorth a'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni sydd eu hangen arnynt i osgoi byw mewn cartref oer;
 - Yr hyn rydym wedi'i ddysgu ar sail y gwaith hwn ac yn sgil y strategaeth trechu tloidi a gyhoeddwyd gennym yn 2010; a
 - Sut yr ydym eisiau adeiladu ar ein gwaith presennol a lleihau tloidi tanwydd ymhellach rhwng nawr a 2035, gan ddechrau gyda'r ddwy flynedd o 2021.
3. Caiff y ddogfen hon ei hategu gan gyfres ehangach o wybodaeth gyhoeddedig, ynghyd ag atodiad technegol y cynllun hwn, a dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r wybodaeth a'r atodiad yma. Mae'r gyfres ehangach o ddogfennau'n cynnwys:
 - Atodiad Technegol y cynllun tloidi tanwydd hwn, sy'n cynnwys y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r cynllun drafft <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-09/tackling-fuel-poverty-2020-to-2035-technical-annex.pdf>.
 - Dadansoddiad manwl o lefel fras tloidi tanwydd yng Nghymru, a luniwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ac a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019; gweler <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tloidi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>;
 - Casgliadau a luniwyd trwy ddadansoddi data Cynlluniau Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru a chofnodion iechyd cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 <https://llyw.cymru/effaith-cynlluniau-cartrefi-clyd-llywodraeth-cymru-ar-iechyd-html>;
 - Adolygiad Tirwedd Swyddfa Archwilio Cymru o dlodi tanwydd yng Nghymru, ynghyd â'r 21 o argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd¹ yn dilyn eu hymchwiliad i dlodi tanwydd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020², y gellir eu gweld drwy ymweld â <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13147/cr-ld13147-w.pdf>


¹ <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tloidi-tanwydd>

² Tloidi tanwydd yng Nghymru Ebrill 2020

CYD-DESTUN A CHEFNDIR

Tlodi Tanwydd yng Nghymru, 2018

Yng Nghymru, diffinnir bod aelwyd **mewn tlodi tanwydd** os yw'n gorfod gwario mwy na **10%** o'i incwm ar gynnal system wresogi foddhaol



Mae system wresogi foddhaol yn golygu tymheredd dan-do sydd o leiaf **21 gradd canradd** mewn stafelloedd byw a **18 gradd canradd** ym mhob stafell arall.

Os yw aelwyd yn gorfod talu mwy nag

20%

ystyrir ei fod mewn **tlodi tanwydd difrifol**



Ffynhonnell: Asolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

EIN CYFRIFOLDEBAU STATUDOL

4. Mae Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 ("y Ddeddf"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ynni 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw pobl Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r Ddeddf yn ein gorfodi i gyhoeddi strategaeth ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Cafodd targedau ar gyfer Cymru eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn 2003 yn "Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru". Fe wnaethom ymrwymo i gael gwared â thlodi tanwydd, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol:

- Ar gyfer aelwydydd agored i niwed³ erbyn 2010
- Ar gyfer pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol erbyn 2012
- Ar gyfer pawb yng Nghymru erbyn 2018

5. Yn 2010, fe wnaethom gyhoeddi strategaeth trechu tlodi newydd, a ddisodlodd "Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru". Roedd y ddogfen hon yn parhau â'n hymrwymiad i gyrraedd y targedau uchod.

Y FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DLODI TANWYDD

6. Mae tlodi tanwydd yn broblem gymhleth y gall nifer o ffactorau effeithio arni. Nodir y tri phrif ffactor isod. Ceir tystiolaeth gynyddol, fodd bynnag, bod agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â defnyddio ynni, ynghyd ag amodau tywydd eithafol sy'n digwydd oherwydd newid yn yr hinsawdd, yn cael effaith gynyddol ar lefelau tlodi tanwydd.

³Trwy ddweud 'aelwydydd agored i niwed', rydym yn golygu aelwydydd sy'n cynnwys rhywun dros 60 oed, rhywun dan 16 oed neu unigolyn anabl neu sydd â chyflwr cyfyngus hirdymor.

7. Dyma'r tri phrif ffactor sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd:

**Y gost y mae
pobl yn ei dalu
am ynni**

**Incwm
aelwydydd pobl**

**Effeithlonrwydd
ynni cartrefi pobl**

8. Yng Nghymru, nid ydym yn meddu ar yr holl ysgogiadau sy'n dylanwadu ar y ffactorau cyfrannol hyn. Er enghraifft, er ein bod wedi cymryd camau fel Llywodraeth i gynyddu incwm pobl, mae polisi llymder Llywodraeth y DU rhwng 2010 a 2019, ynghyd â'r difrod a achoswyd i incwm aelwydydd ers i'r pandemig COVID 19 ddechrau wedi cael effaith ar incwm aelwydydd. Yn yr un modd, Ofgem sy'n rheoleiddio marchnad ynni'r DU a chaiff polisiâu ynni eu llywio gan Lywodraeth y DU.

CAMAU RYDYM WEDI'U CYMRYD I DRECHU TLODI TANWYDD

9. Er mwyn cyrraedd ein nod o gael gwared â Thlodi Tanwydd yng Nghymru cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd lle mae gennym y grym mwyaf i ddylanwadu ar yr achosion sylfaenol hyn:

- Helpu pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi trwy gynnig cyngor a gosod gwelliannau effeithlonrwydd ynni
- Helpu pobl i wneud penderfyniadau mwy cytbwys ynghylch ynni, er mwyn gostwng eu biliau

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ei chyfrifoldeb dros gynorthwyo pobl sy'n cael trafferth i dalu am eu hynni domestig o ddifrif. Mae ein buddsoddiad mewn tai wedi helpu i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru, gyda'r band effeithlonrwydd ynni cyfartalog wedi symud o Fand E yn 2008 i Fand D yn 2017-18.

11. Rhwng 2001 a 2009, fe wnaethom gynorthwyo mwy na 108,000 o gartrefi gyda mesurau effeithlonrwydd ynni dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Yn 2011, fe wnaethom gyflwyno'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a ddisodlodd y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Ers 2011, mae'r buddsoddiad a gyflwynwyd trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd⁴ wedi cyrraedd mwy na £366m (hyd at fis Mawrth 2020), gan wella effeithlonrwydd ynni mwy na 61,400 o gartrefi yng Nghymru a darparu cyngor a chefnogaeth i fwy na 144,800 o bobl.

⁴ Mae'r buddsoddiad yn cynnwys cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a Rhwymedigaeth Cwmni Ynni

12. Cyflwynir dau gynllun dan y Rhaglen Cartrefi Clyd:


- Y cynllun Nyth, sy'n cynnig cyngor a gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref rhad ac am ddim i aelwydydd cymwys ledled Cymru; a
- Y cynllun Arbed, sy'n cynnig gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref rhad ac am ddim mewn ardaloedd sy'n fwyaf tebygol o fod yn dioddef o dlodi tanwydd.

13. Ochr yn ochr â'r Rhaglen Cartrefi Clyd, rydym hefyd wedi gweithio gyda mentrau Llywodraeth y DU, fel y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) a'r Cynllun Ymestyn y Rhwydwaith Tlodi Tanwydd (FPNES) i leihau Tlodi Tanwydd yng Nghymru. Yn ôl Llywodraeth y DU, erbyn Rhagfyr 2019⁵, roedd 107,398 o gartrefi yng Nghymru wedi elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd dan y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni ers 2013.

14. Rydym hefyd wedi buddsoddi i wella bywydau pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Rydym wedi darparu oddeutu £108m y flwyddyn i helpu landlordiaid cymdeithasol i sicrhau bod eu cartrefi'n bodloni gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n cynnwys gwella effeithlonrwydd ynni⁶.

EFFAITH Y RHAGLEN CARTREFI CLYD ERS 2010

15. Daeth gwerthusiad interim o Nyth a gynhaliwyd yn 2015⁷ i'r casgliadau canlynol:



⁵ <https://www.gov.uk/government/statistics/household-energy-efficiency-statistics-detailed-report-2019>

⁶ Asesiad o Gynllun Strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2010 ac Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Cynllun Newydd – t. 16

⁷ https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150310-evaluation-nest-energy-efficiency-scheme-summary-cy_0.pdf

"Rydw i wedi bod heb wres a dŵr poeth go iawn ers dwy flynedd. Eisoes, mae Nyth wedi cael effaith gadarnhaol fawr ar fy mywyd. Mae gwres yn helpu i leihau'r boen a gaf yn fy nghyhyrau a'm cymalau – rhywbeth sy'n gallu fy ngwneud yn analluog."

Preswlydd o Gaerdydd

16. Yn ôl gwerthusiad annibynnol o'r cynllun Arbed, a gynhaliwyd yn 2017⁸, yn gyffredinol roedd pobl yn fodlon iawn â'r cynllun. Dywedodd llawer o bobl fod ganddynt gartrefi cynhesach a bod eu biliau wedi gostwng. Yn ôl rhai deiliaid tai, roedd inswleiddio'r waliau allanol (EWI) wedi arwain at wella gwedd strydoedd a chymunedau'n sylweddol. Yn ôl un preswlydd, *'mae'n bleser cerdded o amgylch y pentref ers i'r gwaith gael ei gwblhau'*. Er bod y manteision a gofnodwyd sy'n gysylltiedig ag EWI yn cael eu cydnabod, fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau mewn rhannau o Gymru lle mae'r EWI wedi gofyn am gamau adferol i fynd i'r afael â materion fel afliwiad rendradau a lleithder mewnol.

17. Ymhellach, mae manteision ehangach yn sgil cynlluniau Nyth ac Arbed wedi cael eu cofnodi trwy gyfrwng y briff tystiolaeth cysylltu data, lle gwelir y canlynol:

- Yn achos pobl sy'n dioddef o ddigwyddiadau anadlol neu ddigwyddiadau haint ac a elwodd ar fesurau effeithlonrwydd ynni cartref dan y Rhaglen Cartrefi Clyd, ni fu'n rhaid iddynt fynd at eu meddyg teulu mor aml o'u cymharu â phobl yn y grŵp rheoli nad oeddynt wedi elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni⁹
- Ar gyfartaledd, mae pobl sydd wedi elwa ar y cynllun Nyth yn dioddef 11% yn llai o ddigwyddiadau anadlol a 12.4% yn llai o ddigwyddiadau asthma ers 2011¹⁰

Mae'n wych, mae'n anhygoel i mi. Dw i erioed wedi cael dŵr poeth yn syth. Roedd y system flaenorol yn cymryd rhyw awr i gynhesu cyn i mi deimlo'r gwres. Nawr, gallwch ei deimlo'n syth. Dw i'n dioddef o glefyd Raynaud, felly dw i'n teimlo'r oerni yn fwy na phobl eraill, felly mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi."

Perchennog cartref ger Caerffili, Cymru

18. Mae gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi hefyd yn cyfrannu at ein nod ehangach yn ymwneud â datgarboneiddio. Mae ein cynllun cyflawni carbon isel, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel¹¹, yn nodi sut gall cartrefi â mwy o effeithlonrwydd ynni helpu i

⁸ <https://llyw.cymru/trechu-tlodi-tanwydd-2020-i-2035>.

⁹ <https://llyw.cymru/effaith-cynlluniau-cartrefi-clyd-llywodraeth-cymru-ar-iechyd.html>

¹⁰ Daethpwyd i'r casgliadau trwy ddadansoddi data Cynlluniau Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru a chofnodion iechyd cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 – gweler <https://llyw.cymru/effaith-cynlluniau-cartrefi-clyd-llywodraeth-cymru-ar-iechyd.html>

¹¹ <https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel>

fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ymhellach, gall cartrefi clyd a chynnes gadw pobl yn iachach a gwella'u llesiant ac ansawdd eu bywydau. Yn 2019, cyflwynodd Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ddatgarboneiddio Tai argymhellion yn ymwneud â'r camau yr oedd angen eu cymryd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru. "Yn "Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell"¹² dywedir bod ein 1.4 miliwn o gartrefi yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir ac am 15% o Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o ochr y galw. Amcangyfrifwn fod y mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a osodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 trwy'r cynllun Nyth yn unig wedi arwain at leihad mewn allyriadau carbon o oddeutu 96,000Kt CO₂.¹³

YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI A BLE'R YDYM ARNI YN AWR

19. Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf o lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru ar 29 Awst 2019¹⁴. Maent yn dweud wrthym fod y bwlch tlodi tanwydd yng Nghymru (y swm sydd ei angen i symud aelwydydd allan o dlodi tanwydd) gan ddefnyddio mesur Cost Uchel Incwm Isel (LIHC) Llywodraeth y DU yn £431 yr aelwyd ar gyfartaledd yn 2018. Mae hyn yn cyfateb i fwllch tlodi tanwydd cyffredinol o £56.9 miliwn ar gyfer Cymru.

Rhwng 2008-2018 roedd nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru wedi gostwng dros 50% "Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell"

Rydym wedi codi tua 177,000 o aelwydydd allan o dlodi tanwydd

Mae tua 155,000 o aelwydydd yng Nghymru yn parhau i fyw mewn tlodi tanwydd, sy'n cyfateb i 12% o aelwydydd

Nodir bod 130,000 o'r aelwydydd hyn yn agored i niwed –sy'n cyfateb i 11% o aelwydydd agored i niwed ledled Cymru

Mae 32,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol, sy'n cyfateb i 2% o aelwydydd. Mae 19,000 o'r aelwydydd hyn yn agored i niwed


Mae tua 145,000 o aelwydydd mewn perygl o fod mewn tlodi tanwydd, gan wario rhwng 8% a 10% o incwm yr aelwyd ar gostau tanwydd

20. Gellir priodoli'r gostyngiad cyffredinol mewn tlodi tanwydd yng Nghymru i'r ffactorau canlynol:

¹² <https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad>

¹³ <https://nyth.llyw.cymru/cy/about-nest/>

¹⁴ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>




21. Mae'r data hefyd yn awgrymu:

- Bod 50% o'r rhai sy'n byw mewn tloedi tanwydd yn aelwydydd un person heb blant
- Bod aelwydydd sy'n byw yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod yn dioddef o dloedi tanwydd, gydag 20% o'r aelwydydd hyn yn byw mewn tloedi tanwydd
- Bod aelwydydd sy'n byw mewn tai a adeiladwyd cyn 1919 yn fwy tebygol o fod yn dioddef o dloedi tanwydd - roedd 20% o'r aelwydydd hyn yn dioddef o dloedi tanwydd
- Bod 21% o aelwydydd sy'n byw mewn tai â waliau solet heb eu hinswleiddio yn dioddef o dloedi tanwydd
- Bod 39% o bobl sy'n byw mewn tai heb wres canolog yn dioddef o dloedi tanwydd
- Bod 43% o aelwydydd sy'n byw mewn tai llai ynni-effeithlon (Bandiau F a G EPC [Tystysgrif Perfformiad Ynni]) yn dioddef o dloedi tanwydd mewn cymhariaeth â 5% o aelwydydd sy'n byw mewn tai sy'n perthyn i fandiau B i C
- Bod y cyfrannau amcangyfrifedig uchaf mewn perthynas â thloedi tanwydd i'w gweld mewn awdurdodau lleol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ¹⁵

¹⁵ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tloedi-tanwydd-ardaloedd-lleol-ebrill-2017-i-fawrth-2018>

Tlodi Tanwydd yn ôl Awdurdod Lleol, Cymru, 2018




Ffigur 1 - Lefelau cyfartalog tlodi tanwydd yng Nghymru yn ôl Ardal Awdurdod Lleol

22. Caiff amcangyfrifon tlodi tanwydd yng Nghymru, ynghyd â'r dirwedd ehangach ar draws y DU, eu hesbonio yn y dadansoddiad manwl o dlodi tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019. Gellir gweld y dadansoddiad yn <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

DATA'N YMWNEUD Â'R FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR LEFELAU TLODI TANWYDD

23. Un o blith tri achos sylfaenol sy'n sail i dlodi tanwydd yw **prisiau ynni**. Ar ôl tuedd fer o weld gostyngiad mewn costau, fe gynyddodd gwariant wythnosol cyfartalog y DU ar danwydd o bob math (ac eithrio tanwydd cerbydau) o £22.36 yn 2016/17 i £22.80 yn 2017/18 a £24.92 yn 2018/19¹⁶. Cynyddodd gwariant cyfartalog y DU ar drydan gan aelwydydd sy'n ei ddefnyddio o 8.4% rhwng 2017/18 a 2018/19. Roedd y cynnydd mewn gwariant yn fwy i'r rhai â systemau gwres canolog trydan, a gynyddodd o 10.5%. Rhwng 2017/18 a 2018/19, cynyddodd gwariant cyfartalog y DU ar nwy o 6.7% ar gyfer aelwydydd sy'n ei ddefnyddio a gostyngodd 3.1% ar gyfer y rhai heb wres canolog nwy.



Ffigur 2 – Gwariant cyfartalog wythnosol aelwyd yn y DU ar bob tanwydd (ac eithrio tanwydd cerbydau) a gyhoeddwyd gan BEIS¹⁷

24. Efallai fod y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn fwy tebygol o fod ar dariff ynni drutach, gan nad ydynt yn gallu neu'n fodlon newid cyflenwyr. Yn ogystal, efallai fod nifer o bobl sy'n talu am eu hynni domestig trwy ddefnyddio mesurydd rhagdalau yn talu mwy am eu tanwydd na'r deiliad tŷ cyffredin.

25. Yn 2020, mae'r sefyllfa hon wedi'i gwaethygu gan COVID 19 a'r rheoliadau a gofynion cadw pellter cymdeithasol a osodwyd i fynd i'r afael â'r feirws, sydd wedi dod â newid digynsail yn y defnydd o ynni domestig yn ystod y gwanwyn a'r haf. Er nad yw ffigurau swyddogol wedi'u rhyddhau eto, mae rhai cyflenwyr ynni wedi

¹⁶ <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/annual-domestic-energy-price-statistics> 26 Mawrth 2020

¹⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/875756/table_262.xlsx

nodu bod y defnydd o ynni domestig wedi cynyddu'n uwch na'r lefelau a ddisgwylir fel arfer yn ystod misoedd cynhesach y gwanwyn a'r haf. Mae dadansoddiad gan un cwmni ynni yn amcangyfrif bod y defnydd o drydan cartrefi¹⁸ wedi cynyddu 4% ar gyfartaledd, er bod rhai aelwydydd, y maent yn amau eu bod yn gweithio gartref, wedi gweld cynnydd o hyd at 32%. Mae defnydd cyfartalog cwsmeriaid nwy hefyd wedi cynyddu 4% er gwaethaf y tywydd mwynach ac mae chwarter defnydd eu cwsmeriaid nwy wedi cynyddu cymaint ag 20%.

26. Mae **effeithlonrwydd ynni cartrefi** yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar lefelau tlodi tanwydd, a dyna pam yr ydym wedi buddsoddi mor gynhwysfawr yn y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae Arolwg Amodau Tai Cymru (WHCS) yn dangos bod tai cymdeithasol o ansawdd gwell ar y cyfan¹⁹ (gan ennill sgôr SAP cyfartalog o 68), o gymharu â thai preifat (perchen-feddianwyr a rhent preifat, gan gyflawni SAP cyfartalog o 60).²⁰ Ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru, mae'r band effeithlonrwydd ynni cyfartalog wedi gwella o Fand E yn 2008 i Fand D yn 2017-18. Mae gan gartrefi a adeiladwyd ers 2002 sgôr SAP gyfartalog o 73 o gymharu â sgôr SAP gyfartalog o 53 ar gyfer cartrefi hŷn a adeiladwyd cyn 1919. Cafodd mwy na 40% o'r cartrefi a rentir yn breifat eu hadeiladu cyn 1919²¹.
27. Mae **incwm aelwydydd** yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU. Yn 2019, enillion cyfartalog cyflogaion llawn amser yng Nghymru oedd £27,500 y flwyddyn o'i gymharu â £30,353 y flwyddyn ar gyfer y DU²². Yng Nghymru, roedd incwm gwario gros aelwydydd yn £17,100 y pen yn 2018, sef yr isaf o bedair gwlad y DU ac yn is na gwerth y DU o £21,109 y pen.
28. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru²³ yn nodi amddifadedd materol fel mesur o dlodi a'i effeithiau. Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau am amddifadedd materol am y tro cyntaf yn 2014-15 ac yna eto rhwng 2016-17 a 2019-20. Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer amddifadedd materol a hefyd ar dlodi bwyd. Canfu'r adroddiadau diweddaraf ar gyfer 2018-19 a 2019-20:
- Yn 2019-20, mae 13% o oedolion yng Nghymru wedi'u hamddifadu'n sylweddol, a 32% o rieni â thri neu fwy o blant a 49% o rieni sengl yn yr un modd.
 - Yn 2018-19, roedd 9% o oedolion wedi mynd o leiaf un diwrnod heb bryd sylweddol yn ystod y pythefnos diwethaf, ac nid oedd 1% yn medru fforddio bwyta cig (neu gyfwerth) o leiaf bob yn ail ddiwrnod.

¹⁸ <https://octopus.energy/blog/domestic-energy-usage-patterns-during-social-distancing/>

¹⁹ <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru> <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-effeithlonrwydd-ynni-anheddau-ebrill-2017-i-fawrth-2018>

²⁰ Asesiad o Gynllun Strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2010 ac Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Cynllun Newydd – t. 16

²¹ Asesiad o Gynllun Strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2010 ac Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Cynllun Newydd – t. 17

²² Arolwg Blynnyddol o Incwm Aelwydydd

²³ <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-mawrth-2020>


<https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019>

<https://llyw.cymru/tlodi-ac-amddifadedd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2017-i-fawrth-2018>

- Yn 2019-20 mae 41% o'r bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol wedi'u hamddifadu'n sylweddol, o gymharu â 23% mewn llety rhent preifat a 5% mewn tai perchen-feddiannaeth.

29. Mae pandemig COVID 19 wedi lleihau incwm aelwydydd yng Nghymru ymhellach fyth. Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU (Awst 2020)²⁴ yn nodi bod 400,800 o weithwyr yng Nghymru wedi eu rhoi ar ffyrlo yn ystod y pandemig, gan dderbyn 80% o'u cyflogau heb fod yn fwy na £2,500 y mis.

30. Mae dangosyddion cynnar eraill²⁵ hefyd yn awgrymu bod pwysau ar incwm aelwydydd ar i lawr. Y cyflog misol canolrifol o wybodaeth amser real PAYE i Gymru oedd £1,701 y mis yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2020. O'i gymharu â'r chwarter blaenorol (Ionawr i Fawrth 2020), gostyngodd y cyflog canolrifol yng Nghymru o £30 y mis. Mae hyn yn ostyngiad canrannol o 1.7% sef y gostyngiad mwyaf ers dechrau cadw cofnodion tebyg. O 9 Gorffennaf 2020 roedd 266,100 o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru; mae hyn yn gynydd o 6,000 o bobl (2.3%) ar y mis blaenorol. O'i gymharu â mis Mawrth 2020, mae'n gynydd o 110,700 (71.2%). Y rhai ag amodau "Gweithio – gyda gofynion" oedd â'r cynnydd mwyaf ers y mis blaenorol, i fyny 5.4% a "Gweithio – dim gofynion" oedd â'r cynnydd mwyaf o'i gymharu â mis Mawrth 2020, i fyny 115.9%.



Ffigur 3 – Effaith COVID 19 ar lefelau amcangyfrifedig o dlodi tanwydd

²⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-august-2020/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-august-2020#geography--countries-and-regions>

²⁵ <https://llyw.cymru/ystadegau-economaidd-allweddol-awst-2020>

GWRANDO AR DDADANSODDI A THYSTIOLAETH

31. Rydym wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwrando ar eu barn arbenigol. Ym mis Mehefin 2019, cynhaliodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig drafodaeth bord gron gydag amrediad o randdeiliaid. Mae'r pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth hon ac yn ein gwaith ymgysylltu ehangach yn cynnwys:
- Pwysigrwydd canolbwyntio ar bobl sy'n byw ar incwm isel, nad ydynt o angenrheidrwydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, yn enwedig y rheini sydd mewn **tlodi tanwydd parhaus**²⁶. Nid ydym ar hyn o bryd yn casglu data'n ymwneud â thlodi tanwydd parhaus, ond fe allai newid hyn ein helpu i dargedu ein cymorth yn well;
 - O safbwynt cymorth, nid yw'r **meini prawf cymhwysra** sy'n berthnasol i'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn ystyried rhai pobl sy'n byw ar incwm isel. Dylai'r meini prawf cymhwysra yn y dyfodol sicrhau bod cymorth ar gael i grwpiau fel pobl hŷn, pobl anabl, aelwydydd â phlant a chyn-filwyr;
 - Gellid cynnig mwy o gymorth er mwyn helpu cartrefi incwm isel i **wrthsefyll pwysau'r tymhorau**, gan gynnwys helpu perchnogion tai i wneud mân waith atgyweirio er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni;
 - Dylem wneud yn fawr o'r **dechnoleg ddeallus** newydd sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau y gall pob aelwyd elwa ar hyn, yn gynnwys aelwydydd ar incwm isel; a
 - Gallem gryfhau prosesau **monitro, gwerthuso ac adrodd** ein cynllun tlodi tanwydd a'i raglenni cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod mesurau'n parhau i gael eu targedu at bobl sydd angen cymorth fwyaf.

ADOLYGIADAU ANNIBYNNOL

32. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Adolygiad o Dlodi Tanwydd yng Nghymru.²⁷ Nod yr adroddiad yw cynnig cipolwg ar ymdrechion Llywodraeth Cymru dan Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010²⁸ a phennu materion allweddol y dylid eu hystyried wrth lunio cynllun newydd ar gyfer 2020-2035. Cydnabu Swyddfa Archwilio Cymru fod rhai o'r penderfynyddion sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, a thynnodd sylw at yr effaith mae ein gweithgareddau wedi'i chael hyd yn hyn. Daw Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad yr ymddengys fod ein buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni wedi helpu i leihau'r lefelau tlodi tanwydd amcangyfrifedig, a bod y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi arwain at welliannau sylweddol yn effeithlonrwydd ynni cartrefi sydd wedi elwa ar y rhaglen.
33. Gwnaeth SAC 10 argymhelliad (Atodiad A), gan gynnwys

²⁶ Mae'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol yn diffinio tlodi parhaus fel byw islaw'r mesur tlodi diffiniedig yn ystod dwy o blith y tair blynedd flaenorol.

²⁷ <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd>

²⁸ [Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, Gorffennaf 2010](#)

- a. Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ar sail ein gweithgareddau hyd yn hyn yn llywio'r dull a roddwn ar waith yn y dyfodol;
- b. Ystyried a fyddai modd i ni lunio dulliau rhywfaint yn wahanol o fesur effaith ein gwaith, fel newidiadau i ansawdd bywydau pobl sydd mewn tlodi tanwydd;
- c. Mynegi'n glir sut dylai ein gwaith ar dlodi tanwydd gysylltu â gwaith arall i godi incwm a gwella cartrefi ar lefel leol;
- d. Sicrhau bod ein targedau a'n nodau'n cyd-fynd â maes ein dylanwad; ac
- e. Amlinellu sut byddwn yn mynd ati'n benodol i gynorthwyo pobl mewn tlodi tanwydd difrifol – pobl nad ydynt, efallai, mor debygol o gymryd rhan mewn cynlluniau a rhaglenni.

34. Ym mis Awst 2019, **cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd ymchwiliad i dlodi tanwydd** a chyhoeddodd alwad am dystiolaeth, a ddaeth i ben ar 3 Tachwedd. Gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau ar:

- a. Maint ac effeithiau tlodi tanwydd yng Nghymru;
- b. Pam y methodd Llywodraeth Cymru â chyrraedd ei tharged statudol o ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018;
- c. Sut mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru hyd yma wedi helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, yn arbennig, effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd (gan gynnwys Nyth ac Arbed) a Safon Ansawdd Tai Cymru;
- d. Sut y dylai olynydd Llywodraeth Cymru i'r strategaeth tlodi tanwydd (y disgwylir iddo fod yn destun ymgynghori yn hydref 2019) fod yn wahanol i'w strategaeth ar gyfer 2010;
- e. Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod cartrefi newydd, yn ogystal â chartrefi sy'n bodoli eisoes, yn effeithlon iawn o ran ynni i'w hatal rhag achosi tlodi tanwydd yn y dyfodol.

35. Derbyniodd y Pwyllgor 34 o gyflwyniadau mewn ymateb i'r alwad am dystiolaeth a mynychodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig sesiwn dystiolaeth weinidogol ar y cyd â'r Pwyllgor ar 13 Chwefror, ynghyd â Julie James MS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gosodwyd adroddiad terfynol y Pwyllgor a oedd yn cynnwys 21 o argymhellion gerbron y Senedd ar 24 Ebrill 2020. Ym mis Mehefin, derbyniodd Llywodraeth Cymru, yn llawn neu mewn egwyddor, yr holl argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

36. Mae'r argymhellion, ynghyd ag ymateb manwl Llywodraeth Cymru, i'w gweld yn Atodiad B.

37. Yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2019,²⁹ *Tai: Addas i'r Dyfodol?*, asesodd y **Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd a'i Bwyllgor Ymaddasu** a yw stoc dai'r DU wedi'i pharatoi'n ddigonol ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd; er mwyn lleihau allyriadau cartrefi'r DU a sicrhau bod cartrefi'n cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

38. Ar 18 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd **Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ddatgarboneiddio Tai** adroddiad yn dwyn y teitl 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell'³⁰. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr adroddiad hwn mewn egwyddor, ac yn awr rydym wrthi'n llunio ymateb manylach a chynllun gweithredu. Bydd y cynllun hwn yn cydnabod bod lleihau allyriadau carbon cartrefi Cymru yn hollbwysig o ran cyflawni ein rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

39. Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn dwyn y teitl '**Deall pa fath o bobl sy'n byw mewn cartrefi incwm isel y mae byw mewn cartref oer yn fwy tebygol o effeithio arnyn nhw**'³¹. Mae'r adroddiad hwn yn argymhell y dylai'r gwaith o gyflwyno gwelliannau i effeithlonrwydd ynni cartrefi ar gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd, barhau i gael ei ariannu trwy Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru.

EIN DULL ARFAETHEDIG AR GYFER 2020-2035

ADOLYGU EIN TARGEDAU AR GYFER TLODI TANWYDD

40. Rhaid i'n cynllun Tlodi Tanwydd fod â thargedau clir sy'n cyflawni ein rhwymedigaethau dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. Rydym yn cytuno â Swyddfa Archwilio Cymru y dylai ein targedau adlewyrchu ein gallu cyfyngedig i ddylanwadu ar benderfyniadau ehangach Tlodi Tanwydd. Felly, cynigiwn dargedau mwy ystyrlon, ond heriol o hyd, sy'n ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod y deng mlynedd diwethaf a'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid allweddol.

41. Rydym yn cynnig y bydd ein hamcan i sicrhau na fydd pobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, wedi cael ei gyflawni **os yw'r sefyllfa ganlynol yn bodoli erbyn 2035**:

- a. Amcangyfrifir na fydd unrhyw aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd³² difrifol neu barhaus
- b. Amcangyfrifir na fydd mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn Tlodi Tanwydd ar unrhyw adeg

²⁹ <https://www.theccc.org.uk/publication/uk-housing-fit-for-the-future/>

³⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad.pdf>

³¹ <https://llyw.cymru/deall-pa-fath-o-bobl-syn-byw-mewn-cartrefi-incwm-isel-y-mae-byw-mewn-cartref-oer-yn-fwy-tebygol-o>

³² Tlodi Tanwydd Parhaus – sef bod mewn Tlodi Tanwydd yn ystod dwy o'r tair blynedd diwethaf l

- c. Bydd nifer yr aelwydydd sydd “mewn perygl” o syrthio i Dlodi Tanwydd wedi mwy na haneru, yn seiliedig ar amcangyfrifon 2018³³

42. Bydd y tri tharged hyn yn cael eu defnyddio i benderfynu pa mor llwyddiannus yw Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r amcan statudol.

CYFLAWNI'R CYNLLUN – SUT Y BYDDWN YN GWIREDDU EIN HAMCAN

43. Mae'r camau rydym wedi'u pennu yn rhai y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd yn rhesymol i leihau Tlodi Tanwydd ymhellach: helpu pobl i newid eu hagweddau tuag at ddefnyddio ynni, sicrhau borgen well gan y farchnad ynni bresennol, a gwella effeithlonrwydd thermol ac ynni eu cartrefi.

44. Mae'r dull arfaethedig wedi'i seilio ar yr egwyddor o gyflwyno tai gweddus yng Nghymru ac wedi'i lywio gan y profiadau a'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno ein Rhaglen Cartrefi Clyd. Byddwn yn rhoi dull rhagweithiol ar waith er mwyn rhwystro pobl rhag dioddef tlodi tanwydd, lleihau ein hallyriadau carbon trwy barhau i wella effeithlonrwydd ynni cartref, a datblygu dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn wrth weithio gyda'r rhai sydd angen yr help fwyaf.

45. Er mwyn cyflawni ein hamcan i leihau mwy fyth ar dlodi tanwydd, yn y cyfnod 2020-2035, byddwn yn cymryd camau o fewn pedwar nod polisi sydd dan reolaeth Llywodraeth Cymru:

Nod1 - Canfod

- Mynd ati'n rhagweithiol i ganfod pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd, er mwyn sicrhau y bydd ein cymorth o fudd i bobl sy'n byw ar incwm isel.

Nod 2 – Blaenoriaethu ac amddiffyn

- Sicrhau bod pobl yn derbyn y pecyn cymorth mwyaf priodol fel bod modd iddynt barhau i wresogi eu cartrefi.

Nod 3 - Datgarboneiddio

- Gwella effeithlonrwydd thermol ac effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel yn y sector perchen-feddiannydd a'r sector rhentu preifat, gan leihau biliau ynni ac allyriadau carbon niweidiol.

Nod 4 - Dylanwad

- Defnyddio ein dylanwad i sicrhau bod Llywodraeth y DU, y Rheoleiddiwr Ynni a chwmnïau ynni yn ystyried ac yn diwallu anghenion pobl sy'n byw yng Nghymru.

³³Amcangyfrifir bod 144,504 o aelwydydd mewn perygl o wynebu Tlodi Tanwydd yng Nghymru, gan wario rhwng 8% a 10% o incwm yr aelwyd ar gostau tanwydd. Mae hyn yn cyfateb i 11% o aelwydydd Cymru.

46. Er mwyn dechrau gweithio tuag at gyflawni'r nodau cyffredinol hyn, rydym wedi nodi camau gweithredu tymor byr y gallwn eu cyflawni rhwng 2021 a 2023. Mae'r cynllun gweithredu drafft ar gael yn Atodiad D. Er y byddem, mewn byd delfrydol, yn cynllunio dull mwy hirdymor, oherwydd y lefel bresennol o anwadlwydd economaidd a'r ansicrwydd ynglŷn â pherthynas y DU â'r UE yn y dyfodol, ynghyd â'n hymdrechion i ailgychwyn ac adfer yr economi yn dilyn COVID 19, sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd, credwn ei bod yn fwy priodol i ni nodi cynllun gweithgarwch tymor byr a pharhau i weithio tuag at ein hamcanion mwy hirdymor. Bydd y camau gweithredu hyn yn destun adroddiadau ac adolygiadau rheolaidd, sef bob dwy flynedd ar sail ein cynnig ni.
47. Yn ogystal â'r camau a nodir yn Atodiad D, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i lobio Llywodraeth y DU, byd diwydiant a rhanddeiliaid ehangach ynglŷn â materion sydd y tu hwnt i faes ei rheolaeth ac a allai gael effaith sylweddol ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru.

Cwestiwn 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflawni 10 cam yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. A ydych yn gwybod am gamau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd, a fyddai'n cyfrannu at ein hymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn y ddwy flynedd nesaf?

MONITRO AC ADRODD

48. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwella'r trefniadau monitro ac adrodd mewn perthynas â thlodi tanwydd a chyflawni ein Rhaglen Cartrefi Clyd a'r mentrau cysylltiedig. Byddwn yn paratoi ac yn cyhoeddi adolygiad cyfnodol o'n cynllun, a fydd yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn y camau rydym wedi'u cymryd a'r cynnydd a wnaed o ran lleihau tlodi tanwydd yng Nghymru. Cynigir y dylid cynnal yr adolygiad cyfnodol hwn bob dwy flynedd. Ni allwn fynd i'r afael â thlodi tanwydd ar ein pen ein hunain, a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector ynni, mewn llywodraeth leol ac yn y Trydydd Sector fel rhan o'r broses adolygu hon.
49. At ddibenion y cynllun hwn, fel y'u diffinnir yn Neddff Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, ystyrir bod aelwyd yn byw "mewn tlodi tanwydd" os oes aelod o aelwyd yn byw ar "incwm isel" mewn cartref na ellir ei gadw'n "gynnes" am "bris rhesymol".

Cwestiwn 2: Mewn perthynas â Chymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cadw'r diffiniad o dlodi tanwydd a nodir yn Neddff Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. A ydych o'r farn fod hyn yn briodol, ynteu a ydych yn gwybod am ddiffiniad mwy priodol y gellid ei ddefnyddio mewn perthynas â Chymru, ac os felly, pam?

50. **Incwm isel** – Mae'r adroddiad ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog³⁴ yn cyflwyno gwybodaeth am safonau byw yn y DU, yn seiliedig ar ddulliau o fesur incwm aelwydydd. Cyflwynir amcangyfrifon ar gyfer incwm cyfartalog, anghydraddoldeb incwm, a nifer a chanran y bobl sy'n byw ar aelwydydd incwm isel. At ddibenion y cynllun hwn, ac o ran diffinio cymhwysra incwm isel am ddarpariaeth mesurau effeithlonrwydd ynni cartref, diffinnir incwm isel fel incwm sy'n llai na 60% o'r incwm aelwyd cyfartalog cyn costau tai, a gyhoeddir yn flynyddol yn yr adroddiad ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog³⁵.

Cwestiwn 3: Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru bennu'n glir pa un a fydd yn cynorthwyo aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, nad ydynt yn gymwys ar gyfer Nyth ac nad ydynt yn byw yn un o ardaloedd Arbed; ac os felly, sut y bydd yn gwneud hyn. Credwn ei bod yn briodol i ni ymestyn ein rhaglenni presennol er mwyn darparu cymorth i bobl sy'n byw ar incwm isel, nad ydynt o angenrheidrwydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. A yw'r diffiniad o incwm isel a gynigir yn y cynllun hwn wedi'i bennu ar lefel briodol er mwyn targedu cymorth, ynteu a ddylai'r trothwy gael ei osod ar lefel wahanol?

51. **Bod yn gyfforddus ac yn ddiogel** – Y diffiniad o "drefn wresogi ddigonol" yn Strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd 2010 yw 23°C yn yr ystafell fyw ac 18°C mewn ystafelloedd eraill am 16 awr mewn cyfnod o 24 awr mewn cartrefi â phobl hŷn neu bobl anabl.
52. Ar gyfer cartrefi eraill, y tymheredd sy'n cael ei ystyried yn foddhaol yw 21°C yn yr ystafell fyw ac 18°C mewn ystafelloedd eraill am naw awr mewn cyfnod o 24 awr yn ystod yr wythnos, ac am 16 awr mewn cyfnod o 24 awr ar benwythnosau. Mae hyn yn seiliedig ar argymhellion a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd 30 mlynedd yn ôl.
53. Fodd bynnag, mae'r drefn wresogi hon fwy neu lai'r un fath â'r gyfundrefn a gynigir yn *Neddf Tlodi Tanwydd (Targedau, Diffiniad a Strategaeth) (Yr Alban) 2019*. At ddibenion y cynllun hwn, bydd y diffiniad o "gyfundrefn wresogi foddhaol" yn cael ei gadw, fel y'i nodir yn Strategaeth 2010. **Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu cyngor** i benderfynu a yw'r diffiniad presennol yn briodol er mwyn sicrhau y gellir cadw pobl yn gyfforddus ac yn ddiogel.
54. **Mae aelwydydd sydd "mewn perygl" o fyw mewn tlodi tanwydd**, yn unol â diffiniad ein strategaeth tlodi tanwydd 2010, yn gartrefi lle mae'r preswylwyr yn cynnwys unigolyn 60 oed³⁶ neu hŷn, a/neu blentyn neu blant dibynnol dan 16 oed a/neu unigolyn sy'n byw â salwch hirdymor neu sy'n anabl. Mae'r

³⁴ <https://www.gov.uk/Government/statistics/households-below-average-income-199495-to-201718>

³⁵ Fel yr argymhellir yn 'Deall pa fath o bobl sy'n byw mewn cartrefi incwm isel y mae byw mewn cartref oer yn fwy tebygol o effeithio arny'n nhw' a gyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2016 SRN/41/2016

³⁶ Caiff person 60 oed a hŷn ei ddiffinio fel person hŷn at ddibenion y cynllun hwn.

amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer tlodi tanwydd yng Nghymru³⁷ yn awgrymu bod pobl ifanc 16-34 oed hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â rhai o'r grwpiau oedran eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y diffiniad hwn o gartref sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd er mwyn cynnwys cartrefi lle mae un person dan 25 oed yn byw. Bydd hyn yn cysoni'r diffiniad â pholisi presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â bod yn agored i niwed.

Cwestiwn 4: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y diffiniad o aelwyd sydd "mewn perygl" o fyw mewn tlodi tanwydd er mwyn cynnwys cartrefi lle mae un person dan 25 oed yn byw. A ydych yn cytuno y dylai pobl ifanc sy'n byw ar eu pen eu hunain gael eu cynnwys yn y diffiniad hwn, ynteu a ddylid cadw'r diffiniad a geir yn Strategaeth 2010?

55. **Fforddiadwyedd** – At ddibenion y cynllun hwn, bydd y dulliau presennol o fesur tlodi tanwydd a thlodi tanwydd difrifol yn cael eu cadw. Mae hyn yn golygu mai nifer yr aelwydydd sy'n gorfod talu mwy na 10% ac 20% (yn ôl eu trefn) o incwm llawn yr aelwyd er mwyn cynnal tymheredd boddhaol, cyfforddus a diogel yn eu cartref³⁸ fydd y prif fesur o dlodi tanwydd yng Nghymru o hyd.
56. Yng Nghymru, bydd tlodi tanwydd yn parhau i gael ei fesur trwy ddefnyddio'r fethodoleg incwm llawn. Caiff incwm y Brif Uned Budd-daliadau (PBU) ei gyfrifo trwy adio incwm personol pawb sy'n byw ar yr aelwyd (16 oed a hŷn) at ei gilydd, ynghyd ag unrhyw fudd-daliadau neu daliadau incwm o fath arall a gaiff yr aelwyd (yn sgil incwm a enillir, budd-daliadau'r wladwriaeth a chynilion ac ati). Yna, bydd incwm o unedau budd-daliadau eraill a'r Taliad Tanwydd Gaeaf, os ydynt yn berthnasol, yn cael ei ychwanegu er mwyn cael yr 'incwm sylfaenol'. Caiff yr Incwm Llawn ei seilio ar yr 'incwm sylfaenol' a thrwy ychwanegu incwm cysylltiedig â'r tŷ, gan gynnwys: budd-daliadau cysylltiedig â'r tŷ a Budd-dal y Dreth Gyngor, a thrwy dynnu'r Dreth Gyngor sy'n daladwy. Dyma 'Incwm llawn yr aelwyd'.
57. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig adrodd ar amcangyfrifon yn seiliedig ar y mesur o 10% ac 20%. Bydd amcangyfrifon o dlodi tanwydd yng Nghymru yn cael eu paratoi ar sail y Mesurau Incwm Isel Costau Uchel (LIHC) neu Incwm Isel Effeithlonrwydd Ynni Isel (LILEE), y fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU. Hefyd, wrth adrodd ar amcangyfrifon tlodi tanwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys dadansoddiad o'r bwlch tlodi tanwydd, neu ddyfnder y tlodi tanwydd, sef y gwahaniaeth cyfartalog o ran cost sy'n ofynnol er mwyn i bobl dalu llai na 10% o'u hincwm am gostau ynni eu cartref.

³⁷ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

³⁸ Gweler argymhelliad 5.6, tudalen 81 "Deall pa fath o bobl sy'n byw mewn cartrefi incwm isel y mae byw mewn cartref oer yn fwy tebygol o effeithio arny'n nhw" a gyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2016 SRN/41/2016.

58. Gan gydnabod bod pobl yn symud i mewn ac allan o dlodi tanwydd, yn dibynnu ar amgylchiadau personol, mae angen hefyd amcangyfrif y perygl o syrthio i dlodi tanwydd. Ar sail hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys amcangyfrifon o bobl sydd angen gwario mwy nag 8% o'u hincwm ar anghenion ynni cartref (y cânt eu hystyried fel rhai "mewn perygl" o fyw mewn tlodi tanwydd), a phobl sydd wedi bod yn byw mewn tlodi tanwydd mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, a fydd yn cael eu hystyried yn bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd parhaus³⁹.

Cwestiwn 5: Mewn perthynas â Chymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw'r dulliau presennol a ddefnyddir i fesur tlodi tanwydd, gan ychwanegu'r mesur 8% i fesur cartrefi sydd "mewn perygl" o wynebu tlodi tanwydd, ynghyd â dull o fesur tlodi tanwydd parhaus, sef bod yn dlawd o ran tanwydd am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. A ydych o'r farn fod y dulliau mesur hyn yn briodol i fesur tlodi tanwydd yng Nghymru, ynteu a ddylid datblygu dulliau mesur amgen?

59. **Effeithlonrwydd Ynni** – Y fethodoleg a ddefnyddir gan y Llywodraeth i asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol cartrefi yw'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP). Ei diben yw darparu asesiad cywir a dibynadwy o berfformiad ynni cartref. Mae'r broses asesu hon yn sylfaen i fentrau polisi ynni ac amgylcheddol. Trwy ddefnyddio'r fethodoleg SAP, mae cartrefi yn cael Tystysgrif perfformiad ynni (EPC). Bydd y fethodoleg SAP yn parhau i fod yn sylfaen i Arolwg Cyflwr Tai Cymru.
60. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai cynlluniau yn y dyfodol sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartref fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd anelu at sicrhau gostyngiad o 21%⁴⁰ a dim llai na gostyngiad o 15%⁴¹ yn yr ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi. Bydd gostyngiad o KWh a gyflawnir yn arwain at fesuriadau mwy cywir ar ôl cwblhau gwaith ôl-osod mewn tai. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at welliannau SAP ac EPC wedi'u sicrhau drwy ein buddsoddiad parhaus, yn seiliedig ar fesuriadau gwirioneddol ac nid amcangyfrifon wedi'u modelu.

Cwestiwn 6: A ydych o'r farn fod lleihad mewn KWh yn fesur mwy effeithiol ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd, ynteu a ddylai amcangyfrifon wedi'u modelu presennol EPC gael eu cadw er mwyn mesur llwyddiant?

³⁹Caiff tlodi tanwydd parhaus ei ddiffinio gan y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol fel bod mewn tlodi yn ystod dwy o'r tair blynedd diwethaf.

⁴⁰<https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/Net-Zero-Technical-report-CCC.pdf> - tudalen 79

⁴¹Yn seiliedig ar argymhelliad adroddiad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (UKCCC), *Homes Fit for the Future?* Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019

ATODIAD A – ARGYMHELLION SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Argymhellion sydd wedi deillio o Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Dlodi Tanwydd yng Nghymru

Cyfeiriad strategol

A1 Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ynghylch diben y targed sy'n gysylltiedig â dileu tlodi tanwydd a pha un a ellid ateb y diben hwnnw'n well trwy bennu uchelgais neu nod sy'n fwy cyson â chylch rheolaeth a dylanwad Llywodraeth Cymru.

A2 Dylai Llywodraeth Cymru roi disgrifiad eglur o'r gwersi a ddysgwyd o'r methiant i gyrraedd y targedau a bennwyd yn 2010 a nodi sut y mae'r gwersi hynny wedi cael eu rhoi ar waith wrth bennu unrhyw uchelgeisiau newydd a'r mecanweithiau ar gyfer eu gwireddu.

A3 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu casgliad mwy amlweddol o fesurau ar gyfer effaith ei rhaglenni a'i hymdrechion i drechu tlodi tanwydd, yn enwedig:

- a. Datblygu ei mesurau ar gyfer ei rhaglen Cartrefi Cynnes sy'n seiliedig ar ganfod sut y mae sefyllfa buddiolwyr yn well mewn ffyrdd sydd o bwys iddynt ochr yn ochr â gwelliannau i effeithlonrwydd ynni'r cartref.
- b. Gweithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu mesurau sy'n ei gwneud yn bosibl deall ar y cyd a yw ymdrechion i gydgyssylltu gweithgarwch ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd yn cael yr effaith a fwriadwyd.

Cydgysylltu ac integreiddio

A4 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio a disgrifio dadansoddiad ariannol a charbon hirdymor o gostau, manteision a chyfnewidiadau blaenoriaethu aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd fel rhan o'i chynlluniau ehangach ar gyfer datgarboneiddio cartrefi.

A5 Gan weithio gyda phartneriaid, dylai Llywodraeth Cymru ddisgrifio'n fwy eglur sut y dylai cynlluniau tlodi tanwydd gysylltu'n lleol â gwaith arall i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a achosodd i unigolion a chymunedau fod dan fygythiad o dlodi tanwydd.

A6 Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion, yng ngoleuni'r farn a fynegwyd wrthym ni, ynghylch ei dull o gynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy, gan gynnwys archwilio pa un a oes angen rhoi unrhyw fecanweithiau ffurfiol ar waith ar gyfer mynd ati'n rheolaidd i gynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy.

Cyllid ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni

A7 Wrth bennu cyllidebau ar gyfer y rhaglen Cartrefi Cynnes yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu golwg eang, yn unol â'r ffyrdd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran sut y gallai cynlluniau tlodi tanwydd: atal costau mewn meysydd gwasanaeth eraill yn y dyfodol; a chyfrannu at nodau polisi ehangach, gan gynnwys y gostyngiad o 80% mewn carbon o dai erbyn 2050.

A8 Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir a fydd, ac os felly sut y bydd, yn cynorthwyo'r aelwydydd hynny mewn tlodi tanwydd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth gan y cynllun Nyth ac nad ydynt yn byw mewn ardal sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun Arbed.

A9 Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cefnogi'r rhai mewn tlodi tanwydd difrifol, gan y gallant fod yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau.

A10 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'n llawn beth yw'r rhesymau dros y tanwariant yn y rhaglen Arbed ac os oes problemau sylfaenol gyda'r dull seiliedig ar ardaloedd sy'n golygu bod y sefyllfa'n debygol o barhau, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau ar gyfer newid cydbwysedd y cyllid rhwng Nyth ac Arbed

ATODIAD B – ARGYMHELLION PWYLLGOR NEWID HINSAWDD, AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG Y SENEDD YN DILYN EI HYMCHWILIAD I DLODI TANWYDD

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
1	Rhaid i strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r tri ffactor sy'n arwain at dloidi tanwydd - prisiau ynni, incwm cartrefi ac effeithlonrwydd ynni - a hynny mewn ffordd gynhwysfawr. (tud. 24)	Derbyn mewn egwyddor Bydd y cynllun drafft i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chefnogi'r atodiad technegol yn ystyried elfennau pwysicaf tlodi tanwydd a ffactorau ychwanegol, megis effaith y newid yn yr hinsawdd ac effaith agweddau ac ymddygiad o ran defnyddio ynni. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar y ffactorau hyn, gan ystyried sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru am allu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ffactorau nad ydynt dan ei rheolaeth yn uniongyrchol.
2	Rhaid i dargedau tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru fod yn heriol ond yn realistig. I gyd-fynd â'r targedau cyffredinol, rhaid cael targedau dros dro a cherrig milltir clir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn. Wrth osod ei thargedau newydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried: - mabwysiadu dull tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban; - y ffordd orau o sicrhau bod y targedau'n cyfateb â'r uchelgais ehangach i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru erbyn 2050. (tud. 24)	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu ac ymgynghori ar dargedau ymestynnol ac ystyrlon y mae modd eu cyflawni hefyd. Bydd targedau arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac os cânt eu mabwysiadu, byddant yn destun monitro, adolygu ac adrodd parhaus. Bydd targedau a gynigir ar gyfer Cymru yn cyd-fynd â'n hymdrechion i ddatgarboneiddio tai yng Nghymru. Wrth ddatblygu'r targedau sy'n cael eu cynnig ar gyfer Cymru, rhoddwyd ystyriaeth i'r dull sy'n cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill y DU. Yn yr Alban, eu targed yw, erbyn 2040, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl nid oes yr un aelwyd yn yr Alban mewn tlodi tanwydd a, sut bynnag (a) nid oes mwy na 5% o aelwydydd yn yr Alban mewn tlodi tanwydd, (b) nid oes mwy na 1% o aelwydydd yn yr Alban mewn tlodi tanwydd eithafol, (c) nid yw'r bwlch tlodi tanwydd canolrifol mewn aelwydydd yn yr Alban yn fwy na £250 wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Dyma'r targedau pellach sydd wedi'u cynnwys yn strategaeth ddrafft yr Alban erbyn 2030: mae'r gyfradd tlodi tanwydd gyffredinol yn llai na 15%; nid yw'r bwlch tlodi tanwydd canolrifol yn fwy na £350 (prisiau 2015 cyn ychwanegu chwyddiant); a bod wedi gwneud cynnydd tuag at gael gwared ar effeithlonrwydd ynni gwael yn y cartref sy'n achosi tlodi tanwydd.
3	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno targedau tlodi tanwydd statudol newydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei hystyriaethau cyn cyhoeddi ei strategaeth tlodi tanwydd derfynol. Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu peidio â chynnwys targedau statudol, rhaid iddi nodi ei rhesymau. (tud. 24)	Derbyn Mae Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ynni 2013, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, gyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer lleihau tlodi tanwydd; yn ei gwneud yn ofynnol i bennu targedau ar gyfer gweithredu'r strategaeth ac at ddibenion cysylltiedig. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno Deddfwriaeth Gymreig i osod targedau er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Caiff y rhesymau eu nodi yn ein cynllun drafft i fynd i'r afael â thlodi tanwydd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Os daw consensws i'r amlwg yn yr ymgynghoriad o blaid cyflwyno Deddfwriaeth Gymreig i sefydlu targedau, rhoddir ystyriaeth

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	bellach i'r mater a byddaf yn egluro'r rhesymeg sy'n sail i'm penderfyniad i'r Pwyllgor cyn i'r cynllun terfynol i fynd i'r afael â tlodi tanwydd gael ei gyhoeddi.
4 Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu fframwaith monitro cadarn i oruchwyllo'r cynnydd o ran cyflawni ei strategaeth tlodi tanwydd newydd. Dylai hyn gynnwys: - cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd blynyddol (sy'n cyd-fynd â'r diffiniad newydd o dlodi tanwydd), gan gynnwys amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd anabl sy'n byw mewn tlodi tanwydd; - Bwrdd Cyngori ar Dlodi Tanwydd, neu strwythur ffurfiol tebyg, sy'n cydnabod rôl allweddol rhanddeiliaid wrth fonitro ac adolygu cynnydd, ac wrth ddarparu gwaith craffu allanol; - ymrwymiad i Lywodraeth Cymru adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd tuag at ei thargedau tlodi tanwydd newydd. (tud. 25)	Derbyn mewn egwyddor Bydd y cynllun drafft newydd yn cynnwys cynigion i wella trefniadau monitro ac adrodd ar dlodi tanwydd, a fydd yn cynnwys adroddiad bob dwy flynedd ar dlodi tanwydd yn nodi amcangyfrifon o dlodi tanwydd ar gyfer Cymru a'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau a gytunwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried adroddiadau blynyddol os yw canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus yn awgrymu y byddai patrwm adrodd amlach yn fanteisiol. Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid yn y Trydydd Sector yn broblem a ystyriwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru⁴². Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac mae rhai wedi croesawu'r cyfle i wneud sylwadau cynnar ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun newydd. Mae rhanddeiliaid wedi honni bod diffyg trefniadau parhaus ffurfiol yn golygu bod lefelau ymgysylltu ar eu huchaf mewn rhai prosiectau a mentrau polisi penodol, ac yna'n edwino pan fo gwaith wedi'i gyflawni sy'n rhoi llawer o'r cyfrifoldeb ar y Trydydd Sector i ddechrau ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chynnal y gwaith ymgysylltu hwnnw. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd mwy ffurfiol er mwyn cyflawni'r cynllun newydd.
5 Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd: un sy'n adlewyrchu profiad byw cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn fwy cywir. Fel man cychwyn, dylai ystyried y dull 'incwm gweddilliol', gan ddysgu gwersi o Loegr a'r Alban. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a'i gwblhau o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. (tud. 25)	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r diffiniad a'r mesurau a ddefnyddir i asesu tlodi tanwydd fod yn briodol i bobl Cymru. Mae angen i unrhyw fesur ystyried natur fyrhoedlog tlodi tanwydd. Mae Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 yn diffinio bod unigolyn i'w ystyried fel petai'n byw "mewn tlodi tanwydd" os yw aelod o aelwyd yn byw ar incwm is mewn cartref na ellir ei gadw'n gynnes am gost resymol. Mae'r diffiniad hwn yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Yng Nghymru, rydym yn cynnig cynnal mesurau presennol ar gyfer tlodi tanwydd yn seiliedig ar incwm llawn, gan gyflwyno mesur newydd yr un pryd er mwyn helpu i nodi pobl sydd mewn perygl o dlodi tanwydd, neu sy'n byw mewn tlodi tanwydd parhaus.

⁴²Paragraff 2.11 Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gefndir Tlodi Tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
		Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r diffiniad a'r mesurau o dlodi tanwydd a ddefnyddir yng Nghymru yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
6	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod amcangyfrifon tlodi tanwydd yn adlewyrchu'r diffiniad newydd. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio'r amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2020 (tud. 25)	Derbyn Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad ar y diffiniad o dlodi tanwydd a ddefnyddir yng Nghymru a'r mesurau cysylltiedig.
7	Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Nyth ac Arbed am Byth i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn, sy'n cynnwys mesur effaith y cynlluniau ar dlodi tanwydd. (tud. 36)	Derbyn Mae adroddiadau blynyddol Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi'u cyhoeddi ers lansio'r cynllun yn 2011. Mae'r gofynion adrodd bellach wedi'u cynnwys ar gyfer cynllun Arbed 3 y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r naill gynllun a'r llall yn destun gwerthusiad annibynnol cyfnodol a fydd yn cynnwys asesiad o'r effaith a gafodd y cynlluniau mewn perthynas ag ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
8	Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag Arbed am Byth, a'i phartneriaid, i roi dulliau mwy soffistigedig ar waith ar gyfer targedu cymorth o dan y cynllun tuag at yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd. (tud. 36)	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig paratoi a chyhoeddi data ynni domestig Cymru bob blwyddyn i'n helpu ni a'n partneriaid i ganolbwyntio ar y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn tlodi tanwydd.
9	Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar: - nifer yr eiddo a gafodd eu gwella a chyfanswm y gwariant drwy Arbed 3 ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen tair blynedd; - y camau y mae'n bwriadu eu cymryd pe bai ffigurau ar welliannau a gwariant yn awgrymu bod Arbed 3 yn parhau i danberfformio. (tud. 37)	Derbyn Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli contractau a gyflwynwyd pan ddyfarnwyd y contract Arbed yn 2018 wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos â chynrychiolwyr Arbed am Byth, er mwyn sicrhau bod lefelau gweithgarwch yn cael eu cyflawni yn ôl y rhagolygon y cytunwyd arnynt. Bydd y gweithgarwch a gyflawnir ym mlwyddyn dau y contract yn cael ei adrodd ym mis Gorffennaf 2020 fel rhan o adroddiad blynyddol Arbed a bydd yn cael ei rannu â'r Pwyllgor. Bydd y mesurau ynysu ffisegol a chymdeithasol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r pandemig COVID-19 yn debygol o gael effaith ar y modd y bydd y cynllun yn cael ei gyflawni yn 2020/21. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag Arbed am Byth er mwyn asesu'r effaith lawn y mae'r pandemig wedi ei chael ar ein rhaglen gyflawni.
10	Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer pecynnau gwella effeithlonrwydd ynni am ddim o dan Nyth, gan ystyried y diffiniad newydd o dlodi tanwydd. Rhaid i'r adolygiad ystyried, yn benodol, ehangu'r meini prawf cymhwysedd i gynnwys aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd. (tud. 37)	Derbyn Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod y meini prawf cymhwysedd anhyblyg sy'n cael eu defnyddio wedi arwain at sefyllfa lle nad yw aelwydydd sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl anabl a theuluoedd, yn gallu cael mynediad at gymorth er eu bod mewn angen. Fel rhan o'r cynllun newydd, bydd Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r Rheoliadau sy'n nodi'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o Gynllun Peilot y Cynllun Nyth ar gyfer Gyflyrau Iechyd. Yn

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
		seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad arfaethedig, bydd diwygiadau i'r Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) yn cael eu gwneud, er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw ar incwm is yn gallu cael cymorth drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd hyd yn oed os nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.
11	Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd i dalu cost gwaith galluogi i aelwydydd na fyddent fel arall yn gallu elwa o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref o dan gynlluniau'r llywodraeth. (tud. 37)	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod diffyg cymorth ariannol i gynnal gwaith galluogi ar gyfer rhoi mwy o gymorth i gartrefi sydd angen gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn rhwystro rhai o'r bobl sydd â'r angen mwyaf rhag cael cymorth. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 12 Chwefror, cadarnhawyd y bydd mesurau i unioni'r sefyllfa hon yn cael eu cynnwys yn y cynllun drafft i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
12	Rhaid i Lywodraeth Cymru fyfrio ar y dystiolaeth a gafwyd am yr angen i neilltuo digon o amser i gwblhau gwaith galluogi cyn gwella effeithlonrwydd ynni o dan gynlluniau. (tud. 37)	Derbyn Os caiff ei gyflwyno, bydd amser digonol i gwblhau gwaith galluogi yn cael ei ymgorffori mewn dangosyddion perfformiad ar gyfer cyflawni.
13	Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth cyngor a chymorth mewnol ar gyfer cartrefi sy'n agored i niwed sy'n byw mewn tldodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddioddef tldodi tanwydd. Dylai'r gwasanaeth. • weithredu ar sail dull cyfannol, gan ddarparu cyngor a chymorth ar wella effeithlonrwydd ynni, cynyddu incwm i'r eithaf a lleihau costau ynni; • darparu cymorth uniongyrchol i aelwydydd, er enghraifft, i fanteisio ar hawliau ariannol, gwirio tariffau ynni a newid cyflenwyr ynni. (tud. 37)	Derbyn Un o'r camau gweithredu oedd wedi'i gynnwys yn Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 oedd darparu gwasanaethau cyngor a chymorth cydgyssylltiedig o ansawdd uchel er mwyn helpu i leihau biliau tanwydd, gwneud y gorau o incwm a gwella effeithlonrwydd ynni cartref. Ers 2011, mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ddarparu drwy Raglen Cartrefi Clyd y Cynllun Nyth sydd wedi bod o fudd i 129,000 a mwy o aelwydydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau cyngor a chymorth rhagweithiol a chyfannol yn y dyfodol.
14	Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu dull cymorth addas i alluogi awdurdodau lleol i sicrhau'r cyllid mwyaf posibl ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni drwy ECO Flex. (tud.37)	Derbyn Mae cynlluniau ein Rhaglen Cartrefi Clyd wedi parhau i ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref mewn cydweithrediad â chynlluniau Llywodraeth y DU, fel y cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) a'r Cynllun Ymestyn Rhwydwaith Tlodi Tanwydd (FPNES) sydd â'r nod o ymestyn y prif grid nwy i gartrefi sydd mewn perygl o fyw mewn tldodi tanwydd. Dim ond tua hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno datganiadau ECO-Flex. Er bod

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
		y rhain yn faterion sydd o fewn disgresiwn Awdurdodau Lleol, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gellir gwneud mwy i helpu ein Hawdurdodau Lleol i ddenu cyllid gan Lywodraeth y DU i gefnogi ein hymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru. Bydd ein cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer cefnogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru.
15	Dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd anelu at gynyddu'r defnydd o fesuryddion deallus mewn cartrefi ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio mesuryddion rhagdal, a'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o'i ddioddef. (tud. 41)	Derbyn Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r rhaglen ar gyfer cyflwyno mesuryddion deallus, yn cael ei hystyngi, a bydd bellach yn para tan 2024⁴³. Mae wedi ymgynghori ar y gofynion a fydd yn cael eu gosod ar gwmnïau ynni wrth iddynt gyflwyno mesuryddion deallus. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i fabwysiadu rôl arweinyddiaeth yng Nghymru, gan annog pobl i arbed ynni ac arian drwy drosglwyddo i fesuryddion deallus.
16	Dylai Llywodraeth Cymru: - ddarparu manylion y grŵp gorchwyl a gorffen ar hyrwyddo'r nifer sy'n derbyn Credyd Pensiwn, gan gynnwys ei gylch gorchwyl a'r amserlen ar gyfer ei waith, - adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd a'r amserlenni dan sylw. (tud41)	Derbyn Ystyried sut i roi terfyn ar y cylch o dan-hawlio a helpu mwy o bobl hŷn i ddefnyddio eu hawl gyfreithiol i gael credyd pensiwn a budd-daliadau lles eraill. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gweithgor Defnyddio Credyd Pensiwn. Mae aelodau'r Gweithgor yn cynnwys swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chynrychiolwyr o sefydliadau allweddol sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn. Bydd swyddogion yn darparu cylch gorchwyl ac amserlenni arfaethedig y Gweithgor i'r Pwyllgor er gwybodaeth ac yn adrodd ar ganlyniad y grŵp pan fydd hwn ar gael.
17	Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau cynrychiolydd o Gymru ar Fwrdd Ofgem a chryfhau presenoldeb y rheolydd yng Nghymru. (tud. 42)	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i gryfhau perthynas waith gyda'r rheoleiddiwr ynni, sydd eisoes yn gadarnhaol. Mae GEMA, Bwrdd Ofgem, yn cynnal un o'i bedwar cyfarfod blynyddol yng Nghymru er mwyn clywed gan randdeiliaid o Gymru. Mae sesiynau blaenorol wedi cynnwys ymweliadau â chanolfannau Cyngor ar Bopeth, datblygiadau ynni adnewyddadwy a phrosiectau ynni cymunedol er mwyn deall problemau sy'n effeithio ar ddinasyddion Cymru. Cynrychiolir Cymru gan uwch swyddog ar Grŵp Llywio Sero-Net Ofgem, sy'n addo darparu llwybr effeithiol i ddylanwadu ar gyfeiriad Ofgem. Byddai sicrhau cynrychiolaeth ar fwrdd Ofgem er mwyn adlewyrchu buddiannau aelwydydd Cymru, y sector ynni a diwydiant yn gyffredinol yn gam cadarnhaol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y bwrdd yn cael ei ddewis ar gyfer meysydd arbenigedd penodol yn hytrach na lleoliad daearyddol. Cafodd cyfeiriad Ofgem, a chynllun y cynlluniau y mae'n eu

⁴³ Cyhoeddiad Llywodraeth y DU Medi 2019

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
		gweithredu, eu llunio gan BEIS. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â BEIS i lywio'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau presennol.
18	Dylai'r strategaeth tlogi tanwydd newydd gynnwys darpariaethau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebwr mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn gynnwys rhaglen bwrpasol gyda lefelau priodol o gyllid sy'n ystyried y mesurau mwy cymhleth a chostus sy'n ofynnol i fynd i'r afael â thlogi tanwydd gwledig. (tud. 45)	Derbyn Wrth asesu effeithiolrwydd strategaeth 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr effaith y mae tlogi tanwydd yn ei chael ar gymunedau gwledig. Amcangyfrifir nad yw 17% o gartrefi wedi'u cysylltu â'r prif grid nwy, ac mae'r mwyafrif llethol o'r rheiny mewn ardaloedd gwledig. Mae nifer anghymesur o gartrefi aneffeithlon o ran ynni i'w cael mewn ardaloedd gwledig, felly mae'n fwy tebygol y bydd pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn byw mewn cartref oer. Mae'r cymorth ar gyfer cartrefi mewn ardaloedd gwledig yn cynnwys y budd o drothwyon uwch ar gyfer cyfanswm gwariant drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir ehangu'r cymorth ymhellach wrth ymgynghori ar y trefniadau newydd ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, a allai gynnwys asiant penodol ar gyfer mynd i'r afael â thlogi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn addasu'r gwaith o ddarparu rhaglenni er mwyn diwallu anghenion cymunedau gwledig yn well, ond bydd yn ystyried sut y gellir ymdrin â'r anghenion parhaus hyn yn well yn y cynllun drafft newydd.
19	Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i ddatblygu mecanwaith cymorth ariannol i alluogi landlordiaid preifat i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth, o ystyried cyflwyno'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni newydd o fis Ebrill 2020. (tud. 51)	Derbyn Mae tystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o Amcangyfrifon Tlogi Tanwydd 2018 yn awgrymu bod aelwydydd sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd, gydag 20% o'r aelwydydd hyn yn byw mewn tlogi tanwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod cartrefi sy'n dioddef tlogi tanwydd yn parhau i gael eu cefnogi drwy'r cynllun Nyth a bydd yn parhau i gydweithio â'r sector rhentu preifat i archwilio pa gymorth pellach y gellir ei ddarparu.
20	Rhaid i Lywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol a Rhentu Doeth Cymru, wneud gwaith i nodi'r rhwystrau i orfodi'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni a mynd i'r afael â hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y gwaith hwn ar y cyfle cyntaf. (tud. 51)	Derbyn Cyflwynodd Llywodraeth y DU Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 a oedd yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Bu newidiadau i'r Rheoliadau, sy'n golygu, ers 1 Ebrill 2018, na chaiff landlordiaid preifat osod eiddo domestig ar denantiaethau newydd i denantiaid newydd neu denantiaid sy'n bodoli eisoes os yw'r radd Tystysgrif Perfformiad Ynni yn F neu G (oni bai bod eithriad yn berthnasol). O 1 Ebrill 2020, roedd y gwaharddiad ar osod eiddo TPY F ac G yn ymestyn i bob eiddo perthnasol, hyd yn oed lle na fu unrhyw newid yn y denantiaeth. 1 Ebrill 2020 yw'r dyddiad olaf y mae'n rhaid i bob eiddo rhent domestig preifat, waeth beth yw statws y denantiaeth, gydymffurfio â'r safonau effeithlonrwydd ynni. Ni ellir cofrestru unrhyw eithriadau ar ôl Ebrill 2020, er y gall rhai fod yn eu lle o hyd, os cawsant eu cofrestru cyn 1 Ebrill 2020. Mae Rhentu Doeth

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	Cymru wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd drwy gylchlythyrau i landlordiaid yn ystod y cyfnod hwn ac mae wedi ysgrifennu at landlordiaid i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau cyfreithiol hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol ar orfodi safonau mewn eiddo ar rent yn ystod y pandemig COVID-19. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau mai dim ond y camau gorfodi y maent yn penderfynu sydd yn angenrheidiol a gymerir ganddynt, gan sicrhau bod camau pragmatig, priodol ac sy'n seiliedig ar risg yn cael eu cymryd. Mae canllawiau i landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat wedi'u cyhoeddi, sy'n egluro y dylai unrhyw fesurau gorfodi ganolbwyntio ar ymateb i sefyllfaoedd brys ac nid yw gorfodi safonau effeithlonrwydd ynni yn cael ei ystyried yn argyfwng. Cyngorir landlordiaid nad ydynt yn gallu cael mynediad i eiddo oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith, neu nad ydynt yn gallu ymgysylltu â chontractwr i gyflawni'r gwaith angenrheidiol, i gofnodi eu hymdrechion i wneud hynny. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ynghylch yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag gorfodi'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol yn y Sector Rhentu Preifat, ac rydym yn disgwyl y gallwn ei ddarparu erbyn Rhagfyr 2020.
21 Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod safonau effeithlonrwydd ynni newydd mewn cartrefi newydd mor uchelgeisiol â phosibl, a bwrw ymlaen â'r newidiadau i Reoliadau Adeiladu Rhan L heb ragor o oedi. (tud. 51)	Derbyn Daeth cyfnod 1 yr ymgynghoriad ar Ran L y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag anheddau newydd i ben ar 12 Mawrth. Mae sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hasesu. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig dau opsiwn, sef gostyngiad o 37% neu 56% mewn allyriadau carbon o gymharu â safonau cyfredol. Roedd y ddogfen yn rhoi manylion hefyd o ran y ffordd ymlaen ar gyfer gofynion effeithlonrwydd ynni i'w cyflwyno yn 2025. Bydd Ymgynghoriad Cam Dau ar gartrefi sy'n bodoli eisoes yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn 2020.

ATODIAD C – CRYNODEB O'R CWESTIYNAU

Cwestiwn 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflawni 10 cam yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. A ydych yn gwybod am gamau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd, a fyddai'n cyfrannu at ein hymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn y ddwy flynedd nesaf?

Cwestiwn 2: Mewn perthynas â Chymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cadw'r diffiniad o dlodi tanwydd a nodir yn Neddf Cartrefi Cynnes ac Arbed ynni 2000. A ydych o'r farn fod hyn yn briodol, ynteu a ydych yn gwybod am ddiffiniad mwy priodol y gellid ei ddefnyddio mewn perthynas â Chymru, ac os felly, pam?

Cwestiwn 3: Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru bennu'n glir pa un a fydd yn cynorthwyo aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, nad ydynt yn gymwys ar gyfer Nyth ac nad ydynt yn byw yn un o ardaloedd Arbed; ac os felly, sut y bydd yn gwneud hyn. Credwn ei bod yn briodol i ni ymestyn ein rhaglenni presennol er mwyn cynnig cymorth i bobl sy'n byw ar incwm isel, nad ydynt o angenrheidrwydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. A yw'r diffiniad o incwm isel a gynigir yn y cynllun hwn wedi'i bennu ar lefel briodol er mwyn targedu cymorth, ynteu a ddylai'r trothwy gael ei osod ar lefel wahanol?

Cwestiwn 4: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y diffiniad o gartref sydd "mewn perygl" o fyw mewn Tlodi Tanwydd er mwyn cynnwys cartrefi lle mae un person dan 25 oed yn byw. A ydych yn cytuno y dylai pobl ifanc sy'n byw ar eu pen eu hunain gael eu cynnwys yn y diffiniad hwn, ynteu a ddylid cadw'r diffiniad a geir yn Strategaeth 2010?

Cwestiwn 5: Mewn perthynas â Chymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw'r dulliau presennol a ddefnyddir i fesur tlodi tanwydd, gan ychwanegu'r mesur 8% i fesur cartrefi sydd "mewn perygl" o wynebu tlodi tanwydd, ynghyd â dull o fesur tlodi tanwydd parhaus, sef bod yn dlawd o ran tanwydd am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. A ydych o'r farn fod y dulliau mesur hyn yn briodol i fesur tlodi tanwydd yng Nghymru, ynteu a ddylid datblygu dulliau mesur amgen?

Cwestiwn 6: A ydych o'r farn fod lleihad mewn KWh yn fesur mwy effeithiol ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd, ynteu a ddylai amcangyfrifon wedi'u modelu presennol EPC gael eu cadw er mwyn mesur llwyddiant?

Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai ein cynigion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd sut y credwch y gallai ein cynigion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

ATODIAD D – CYNLLUN

DRAFFT I FYND I'R AFAEL Â THLODI TANWYDD – CAMAU GWEITHREDU BLAENORIAETH AR GYFER 2021/2023

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Pryd	Nodau Polisi
Rhaglen Cartrefi Cynnes			
1	Parhau i fuddsoddi a chyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref er mwyn cefnogi aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd, gan gynnwys drwy'r rhaglen Cartrefi Cynnes.	Parhaus Mis Ebrill 2021 tan fis Mawrth 2023	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, datgarboneiddio
2	Ymgynghori ar drefniadau diwygiedig ar gyfer cyflawni mesurau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd y tu hwnt i fis Mawrth 2023. Bydd yr ymgynghoriad yn archwilio dewisiadau ar gyfer cyflawni gan gynnwys: - Yr amcanion polisi sydd i'w cyflawni drwy barhau i fuddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref, megis cyfraniad at y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio tai, twf glân, llesiant a thlodi tanwydd - Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2004 - Y ffactorau llwyddiant critigol a fydd yn sylfaen i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol (Argymhelliad 7 CCERA⁴⁴) - Cynigion ar gyfer diwygio'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu cymhwysedd ar gyfer cymorth, gan gynnwys cyflyrau iechyd ac incwm is (Argymhelliad 10 CCERA) - Cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a gwaith i'w galluogi yng nghwmpas cynlluniau sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni cartref, gan gynnwys dull gweithredu egwyddorol o ran arloesi - Lefel y cymorth ariannol a gynigir i fuddiolwyr y rhaglen, yn enwedig ar gyfer deiliaid tai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o Gymru (Argymhelliad 18 CCERA) - Parhau i wella dulliau sicrhau ansawdd mewn perthynas â gwaith ôl-osod mewn tai er mwyn sicrhau deiliaid tai bod y crefftwaith o'r safon uchaf (PAS2035/2030)	<u>Cynllun Blwyddyn 1</u> Mis Mehefin 2021 hyd at fis Rhagfyr 2021	Blaenoriaethu ac amddiffyn, datgarboneiddio

⁴⁴Ymchwiliad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i Dlodi Tanwydd, a gyhoeddwyd 24 Ebrill 2020

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Pryd	Nodau Polisi
	Ar sail canlyniad yr ymgynghoriad ar Effeithlonrwydd Ynni Cartref, cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a gweithredu ein canfyddiadau i ddechrau ym mis Ebrill 2023	<u>Cynllun Blwyddyn 2</u> Mis Mawrth 2022 hyd at fis Mawrth 2023	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, datgarboneiddio
Gwasanaethau Cyngor a Chymorth Effeithlonrwydd Ynni Domestig			
3	Ar sail canlyniad ein prosiect peilot cyngor a chymorth (Argymhelliad 13 CCERA) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, byddwn yn ymgyngori ar Wasanaethau Cyngor a Chymorth Ynni Domestig. Bydd y trefniadau hyn yn helpu pobl i arbed arian a lleihau'r defnydd o ynni drwy: • Cael borgen ynni well • Sicrhau eu bod yn cael popeth mae ganddynt hawl i'w gael gan Lywodraeth y DU neu gwmnïau ynni • Gwneud defnydd o dechnolegau newydd, fel mesuryddion deallus • Rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio mesuryddion rhagdal • Gwneud cais am fesurau effeithlonrwydd ynni cartref	<u>Cynllun Blwyddyn 1</u> Mis Mehefin 2021 hyd at fis Rhagfyr 2021	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, datgarboneiddio
	Ar sail canlyniad yr ymgyngoriad ar Wasanaethau Cyngor a Chymorth Ynni Domestig , byddwn yn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a gweithredu ein canfyddiadau i ddechrau ym mis Ebrill 2023	<u>Cynllun Blwyddyn 2</u> Mis Mawrth 2022 hyd at fis Mawrth 2023	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, datgarboneiddio
4	Paratoi, cyhoeddi ac adolygu cynllun i wrthsefyll pwysau'r gaeaf yn well ar gyfer pobl sy'n cael trafferth talu eu costau tanwydd domestig ac sydd mewn perygl o ddioddef afiechyd y gellid ei osgoi, neu farw cyn pryd gan eu bod yn byw mewn cartref oer. Bydd y cynllun yn disgrifio'r trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i: • Helpu aelwydydd incwm isel i dalu costau mân atgyweiriadau i foeleri gwres canolog yn ystod yr hydref a'r gaeaf • Gwneud taliadau brys i alluogi aelwydydd incwm isel i wneud taliadau tuag at fesuryddion rhagdal, gan osgoi effeithiau negyddol hunanddognu ynni a hunan-ddatgysylltu • Cefnogi perchen-feddianwyr sy'n byw mewn tldi tanwydd trwy eu cynorthwyo i wneud mân atgyweiriadau neu waith galluogi i'w cartrefi er mwyn cynnal neu wella effeithlonrwydd ynni	<u>Cynllun Blwyddyn 1</u> Medi 2021	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, datgarboneiddio

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Pryd	Nodau Polisi
	(Argymhelliad 11 CCERA)		
Monitro, gwerthuso ac adrodd			
5	Mewn ymateb i argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd, byddwn yn sefydlu bwrdd cyngori gweinyddol ar dlodi tanwydd er mwyn monitro ac adolygu cynnydd ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru (Argymhelliad 4 CCERA)	Cynllun Blwyddyn 1 Mehefin 2021	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, dylanwadu
6	Paratoi a chyhoeddi data ynni domestig Cymru yn flynyddol er mwyn ein helpu ni a'n partneriaid i ganolbwyntio ar gymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn tlodi tanwydd (Argymhelliad 8 CCERA)	Cynllun Blwyddyn 2 Gorffennaf 2022	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, dylanwadu
7	Cyhoeddi adolygiad o berfformiad bob dwy flynedd tuag at ein hamcanion ar gyfer 2035, a fydd yn cynnwys cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru (Argymhelliad 4 CCERA)	Cynllun Blwyddyn 2 Gorffennaf 2022	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, dylanwadu
Gweithio gyda'n partneriaid			
8	Annog Llywodraeth y DU, y Rheoleiddiwr a chyflenwyr ynni i ddibynnu llai ar osod mesuryddion rhagdal fel ffordd o adennill ôl-ddyledion, sy'n arwain at gwtogi ar ynni a hunanddatgysylltu	Parhaus	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, dylanwadu
9	Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith mesuryddion deallus erbyn 2024 (Argymhelliad 15 CCERA)	Parhaus	Canfod, blaenoriaethu ac amddiffyn, dylanwadu
10	Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni a mentrau eraill Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chymru (Argymhelliad 14 CCERA)	Parhaus	Dylanwadu, datgarboneiddio

RHESTR TERMAU

BRE Sefydliad Ymchwil Adeiladu
DAF Cronfa Cymorth Dewisol
ECO Rhwymedigaeth Cwmni Ynni
EPC Tystysgrif Perfformiad Ynni
EUP Cynhyrchion sy'n Defnyddio Ynni
EWI Deunydd Inswleiddio Muriau Allanol
HBAI Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog
KWh Oriau Cilowat
LHA Awdurdod Tai Lleol
LIHC Incwm Isel Costau Uchel
LILEE Incwm Isel Effeithlonrwydd Ynni Isel
LSVT Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr
MRA Lwfans Atgyweiriadau Mawr
PAS Manyleb sydd ar gael i'r Cyhoedd (PAS2035/2030)
PRS Sector Rhentu Preifat
RdSAP Gweithdrefn Asesu Safonol Is
RSL Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
SAP Gweithdrefn Asesu Safonol
SBRI Menter Ymchwil Busnesau Bach
SMC Comisiwn Metrigau Cymdeithasol
UKCCC Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd
SAC Swyddfa Archwilio Cymru
WHCS Arolwg Amodau Tai Cymru
WHD Disgownt Cartrefi Cynnes
WHP Rhaglen Cartrefi Cynnes
SATC Safonau Ansawdd Tai Cymru

**Ffurflen ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflawni 10 cam yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. A ydych yn gwybod am gamau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd, a fyddai'n cyfrannu at ein hymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn y ddwy flynedd nesaf?

[Ateb:]

Cwestiwn 2: Mewn perthynas â Chymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cadw'r diffiniad o dlodi tanwydd a nodir yn Neddŵ Cartrefi Cynnes ac Arbed ynni 2000. A ydych o'r farn fod hyn yn briodol, ynteu a ydych yn gwybod am ddiffiniad mwy priodol y gellid ei ddefnyddio mewn perthynas â Chymru, ac os felly, pam?

[Ateb:]

Cwestiwn 3: Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru bennu'n glir pa un a fydd yn cynorthwyo aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, nad ydynt yn gymwys ar gyfer Nyth ac nad ydynt yn byw yn un o ardaloedd Arbed; ac os felly, sut bydd yn gwneud hyn. Credwn ei bod yn briodol i ni ymestyn ein rhaglenni presennol er mwyn cynnig cymorth i bobl sy'n byw ar incwm isel, nad ydynt o angenrheidrwydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. A yw'r diffiniad o incwm isel a gynigir yn y cynllun hwn wedi'i bennu ar lefel briodol er mwyn targedu cymorth, ynteu a ddylai'r trothwy gael ei osod ar lefel wahanol?

[Ateb:]

I

Cwestiwn 4: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y diffiniad o gartref sydd "mewn perygl" o fyw mewn Tlodi Tanwydd er mwyn cynnwys cartrefi lle mae un person dan 25 oed yn byw. A ydych yn cytuno y dylai pobl ifanc sy'n byw ar eu pen eu hunain gael eu cynnwys yn y diffiniad hwn, ynteu a ddylid cadw'r diffiniad a geir yn Strategaeth 2010?

[Ateb:]

Cwestiwn 5: Mewn perthynas â Chymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw'r dulliau presennol a ddefnyddir i fesur tlodi tanwydd, gan ychwanegu'r mesur 8% i fesur cartrefi sydd "mewn perygl" o wynebu tlodi tanwydd, ynghyd â dull o fesur tlodi tanwydd parhaus, sef bod yn dlawd o ran tanwydd am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. A ydych o'r farn fod y dulliau mesur hyn yn briodol i fesur tlodi tanwydd yng Nghymru, ynteu a ddylid datblygu dulliau mesur amgen?

[Ateb:]

Cwestiwn 6: A ydych o'r farn fod lleihad mewn KWh yn fesur mwy effeithiol ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd, ynteu a ddylai mesurau modelu presennol EPC gael eu cadw er mwyn mesur llwyddiant?

Ateb:

Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai ein cynigion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Ateb:

Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd sut y credwch y gallai ein cynigion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ateb:

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu gweld gan y cyhoedd, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddienw, ticiwch yma: ☐